Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bodffordd

**Bodffordd**
**Llangefni**
**LL77 7LZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Bodffordd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Bodffordd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 88 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 65 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 12.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 23.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 76.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2000 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymunedol Bodffordd yn ysgol gyfeillgar a chynhwysol, sy’n hyrwyddo ethos gofalgar yn fwriadus. Mae perthnasoedd gwaith pwrpasol yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy’n cefnogi amgylchedd cadarnhaol ac yn meithrin ymdeimlad cryf o ddysgu a lles ymhlith disgyblion.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu yn yr adeilad ac o gwmpas tir yr ysgol, ac maent yn frwdfrydig yn ystod gwersi a thasgau. Maent yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol, gwrando, siarad, darllen a chymwyseddau digidol pwrpasol.

Mae’r cynllunio o ran y cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol. Mae deilliannau disgyblion yn dda lle mae’r cynllunio, yr addysgu a’r adborth ar eu gwaith yn heriol a chyson. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio i ddatblygu medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion, a’r adborth i dargedu’r camau nesaf yn nysgu disgyblion, yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae staff yn cefnogi a gofalu am ddisgyblion yn dda. Mae hyn yn cyfrannu at awydd disgyblion i ddysgu a’u gwytnwch i ddyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn annog disgyblion yn effeithiol i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a’u hymddygiad eu hunain ac i gofleidio’u hapusrwydd. O ganlyniad, mae’r cymorth emosiynol i ddisgyblion yn nodwedd gadarn yn yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn bwrpasol ac yn sicrhau bod gofal a lles y disgyblion yn flaenoriaeth. Mae hyn yn sail i’w weledigaeth. Mae’n gweithio’n dda gyda’r staff a’r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol, sy’n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion. Fodd bynnag, oherwydd ei gyfrifoldebau addysgu, nid oes digon o amser ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau arwain a rheoli mewn modd cynaliadwy.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn effeithiol, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd, sy’n arwain at gynlluniau datblygu pwrpasol. Mae gweithgareddau monitro’r ysgol yn arwain at gyfleoedd hyfforddi perthnasol i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn a phwrpasol. Daeth yr arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch safle’r ysgol i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â phroblem diogelwch ar y safle, a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Sicrhau bod gan y pennaeth ddigon o amser i gyflawni ei ddyletswyddau arwain a rheoli mewn modd cynaliadwy

A3 Cynllunio dilyniant effeithiol ym medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol

A4 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n uwch na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf , gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn cyflawni'n effeithiol ynglŷn â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn hyderus i gyflwyniadau. Mae medrau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n fyrlymus, er enghraifft wrth ragfynegi pa wrthrychau sy'n suddo ac arnofio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu medrau llafar graenus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd o fewn eu dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus gan egluro'r cynnwys yn gywrain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn amrywio goslef eu lleisiau ac yn defnyddio atalnodi yn fwriadus. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth iddynt ddarganfod gwybodaeth am Vincenzo Peruggia a wnaeth ddwyn y Mona Lisa. Mae hyn yn dyfnhau eu dealltwriaeth o gyfiawnder a gonestrwydd yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, fel ailadrodd chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd a pharagraffu. Maent yn addasu arddull a strwythur yn ôl gwahanol destunau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn disgrifio gwaith a bywyd y 'Copr Ladis' ar Fynydd Parys yn ystyrlon. Fodd bynnag,

nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn adeiladu'n systematig wrth iddynt deithio trwy'r ysgol.

Ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Yn y dosbarth derbyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael dda ar ffeithiau rhif hyd at 20 ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 100. Yn ogystal, maent yn llwyddo i ddisgrifio nodweddion a phriodweddau siapiau tri-dimensiwn yn gywir trwy adeiladu pontydd i groesi culfor y Menai. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn llunio onglau llem ac aflem yn hyderus ac yn defnyddio data'n llwyddiannus, wrth gymharu marwolaethau ym mhyllau glo Cymru. Fodd bynnag, er bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol effeithiol. Maent yn mewngofnodi'n hyderus ar lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o feddalwedd priodol i animeiddio chwedlau Cymru ac yn rhaglennu robotau electronig yn hyderus i ddilyn llwybrau penodol. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w hystyried at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o raglenni cyflwyno gwybodaeth yn dda, fel mewnosod testun a graffeg, i wella cyflwyniadau a chodio gemau â sain i'w cyfoedion gwblhau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn dda. Mae disgyblion iau yn creu celf mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, o'r meithrin i Flwyddyn 2, mae disgyblion yn cydweithio'n dda i efelychu lliwiau yn eu gwaith, sy'n debyg i artistiaid enwog fel Paul Klee a Kyffin Williams. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hŷn yn defnyddio dyfrlliwiau a phasteli yn annibynnol i ddehongli dyluniadau bywyd llonydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel o fewn naws ofalgar a theuluol yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyried eu bod yn cael eu trin â pharch a bod eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder at eu bro a'u hysgol, ac maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a'u treftadaeth. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at les ac agweddau dysgu'r disgyblion, ac mae eu cyfraniadau'n ganolog i ethos a gweledigaeth yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'n ddeallus am nodweddion cyfeillgarwch ac mae eu sylwadau'n cael eu hadlewyrchu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae hyn yn ysgogi disgyblion i ddeall bod eu perthnasoedd yn hollbwysig i'w datblygiad fel unigolyn cyflawn.

Mae ymddygiad bron bob disgybl o fewn gwersi, gweithgareddau ac amseroedd egwyl yn glodwiw a chanmoladwy. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gydwybodol a chytûn gyda'u cymheiriaid. Maent yn gwrtais ac ystyriol o eraill ac yn dangos parch a

gofal amlwg tuag at oedolion cyfarwydd, cyfoedion ac ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando’n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau gan oedolion ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ymroi i’w tasgau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn dylanwadu’n gadarnhaol ar themâu'r dosbarth. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u dyheuadau wrth gyfrannu i fapiau meddwl ar ddechrau thema dymhorol. O ganlyniad, maent yn datblygu'r gallu i wneud penderfyniadau a myfyrio ar eu dysgu, fel cyfranogi'n chwilfrydig yn eu heriau yn annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu technegau meddwl perthnasol i’w helpu i lwyddo a dyfalbarhau wrth ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dygnwch a hyder wrth ddyfalbarhau â'u gwaith yn eu dosbarthiadau ac wrth ymroi i dasgau yn yr awyr agored. Yn ogystal, mae presenoldeb disgyblion yn dda, ac yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith fanteisiol ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi’n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol, sydd wedi eu cynllunio’n bwrpasol i ddatblygu unigolion iach a hyderus. Mae gan ddisgyblion wybodaeth gadarn am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn ddiogel ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu’n  ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb. Trwy eu hymchwil a’u trafodaethau synhwyrol, maent yn dechrau deall bod parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol yn bwysig. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y maent yn ymchwilio i fywyd yr arweinydd Martin Luther King a hanes yr actifydd Rosa Parks ac yn defnyddio’r wybodaeth i ystyried yr hyn sy’n cyfrannu at gymdeithas sy’n parchu hawliau dynol.

Mae lles ac agweddau at ddysgu'r disgyblion yn gadarn oherwydd eu hymglymiad brwdfrydig mewn datblygu eu medrau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfranwyr parod wrth ddatblygu eu medrau artistig. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn fentrus tra'n arbrofi’n llwyddiannus gydag amrywiaeth o gyfryngau, fel printio patrymau gwahanol i addurno beibl yr Esgob William Morgan. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau fel cyfranwyr uchelgeisiol a chreadigol yn effeithiol. Maent yn cyfrannu’n eiddgar i'w thema ar fusnesau penodol yn eu hardal wledig, fel ffatri entrepreneur lleol, sy’n creu siocledi a theisennau.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arweiniol a chyfrifol. Maent yn chwarae rhan gynhyrchiol ym mywyd a gwaith yr ysgol fel aelodau o’r cyngor ysgol ac amrywiol bwyllgorau eraill. Mae cynrychiolwyr yn mynd i’r afael â’u gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau, a thrwy hyn, maent yn cyfrannu’n werthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau’r Grŵp Iechyd a Lles yn annog disgyblion a staff i yfed dŵr yn gyson trwy gydol y dydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn gadarn. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn teilwra gweithgareddau dysgu’n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd angen cymorth â’u gwaith. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth ddiwyd i'r disgyblion hyn, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt gwblhau eu gwaith yn annibynnol. Mae rhediad sionc i lawer o’r gwersi yn ennyn diddordeb disgyblion yn fedrus ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae’r cyflwyniadau i wersi yn hir ac, o’r herwydd, mae ychydig o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu dysgu.

Mae addysgu’r athrawon a’r cymorthyddion yn gadarn a chaiff disgyblion ystod o brofiadau i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon Blwyddyn 2 a 3 yn darparu cyfleoedd heriol ar gyfer y disgyblion i amseru rhediadau dŵr yn yr ardal allanol. O ganlyniad, maent yn trafod cyflymder ac amser a chysylltu’r ddau yn ddeallus. Mae disgyblion o Flynyddoedd 4 i 6 yn ysgrifennu ymsonau diddorol i bortreadu amodau gwaith plentyn yn ystod Oes Fictoria fel ysgubwyr simneiau a dalwyr llygod.

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy’n hyrwyddo diddordeb disgyblion am yr ardal leol wrth astudio Bodffordd gan gyfrannu at raglen deledu ar hanes y pentref gyda chefnogaeth trigolion lleol. Mae llu o brofiadau ar gael i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio’n adeiladu'n systematig ar y medrau hyn o un flwyddyn i’r llall yn gwbl effeithiol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cymell disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn dda trwy lenwi mapiau meddwl ar y cyd ar ddechrau thema. Maent yn cymryd sylw da o awgrymiadau disgyblion wrth gynllunio’n ddeallus i wella medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Maent yn croesawu eu safbwyntiau ac yn eu defnyddio'n effeithiol wrth baratoi gweithgareddau. Er enghraifft, yn dilyn awgrymiadau’r disgyblion, mae’r dosbarthiadau’n astudio pontydd Môn, mynyddoedd Eryri a fferm leol a’i chwt llaeth. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn awyddus i rannu eu profiadau ag eraill yn yr ardal leol a thu hwnt.

Mae’r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddigwyddiadau byd-eang ac amrywiaeth y byd. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy’n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu ac arferion priodol wrth ymateb i waith disgyblion yn ystod gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu’r disgyblion, ac i dargedu unrhyw anghenion yn brydlon. Yn ogystal, mae staff yn holi’r disgyblion yn fedrus ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt ymateb i adborth a sylwadau ysgrifenedig eu hathrawon. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn targedu’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn ddigon effeithiol iddynt ddeall sut i wella’u gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu buddiol a diddorol lle mae pob ardal yn cael ei defnyddio'n bwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn i'r adeilad i ysgogi’r disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r mannau awyr agored yn dda, lle mae cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynghylch beth a sut i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys coginio yn y gegin fwd a chwarae rôl ar y llwyfan. Rhoddir felly gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso’u medrau’n dda mewn sefyllfaoedd ymarferol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned gynnes a gofalgar, ac mae staff yn annog disgyblion i gyfrannu at ei hethos cynhwysol a chyfeillgar yn llwyddiannus. Mae’r berthynas waith effeithiol rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion eu hunain yn nodwedd gadarnhaol yn yr ysgol. Er enghraifft, mae gwaith diwyd y Grŵp Amser Egwyl, trwy ddefnyddio holiaduron i ddarganfod dyheuadau disgyblion, wedi arwain at feinciau cymunedol ar y buarth a chyfarpar chwarae.

Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn brydlon ac yn synhwyrol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Maent yn cyfrannu’n dda at strategaethau llwyddiannus i reoli ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys y defnydd buddiol o grwpiau anogaeth, sy’n cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn bwrpasol. Mae dull cydweithredol yr ysgol yn cyfrannu’n dda at hapusrwydd ac awydd disgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau’r ysgol. Mae’r cymorth hwn yn helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgartrefu’n dda yn yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi’u nodi ag ADY yn effeithiol. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n gydwybodol gydag aelodau eraill o staff, partneriaid allanol ac ysgolion lleol, i sicrhau bod unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn cael eu hadnabod, eu holrhain a'u cefnogi'n dda o oedran cynnar. Mae adolygiadau cynnydd disgyblion yn golygu bod gan aelodau staff ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion. Mae staff yn rhyngweithio’n fuddiol ag ystod o wasanaethau i sicrhau adnoddau ychwanegol, amserol ac i gynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion ag ystod o anghenion dysgu, emosiynol a chymdeithasol. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, sy’n elwa ar gymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’u cyfnod datblygu a’u mannau cychwyn.

Mae’r ysgol yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau i wella eu profiadau. Mae staff yn annog pob disgybl i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn effeithiol ar amrywiaeth o grwpiau etholedig. Mae’r ddarpariaeth hon yn ehangu eu dealltwriaeth o ddatblygu fel dinasyddion gweithredol a phwysigrwydd cyfraniadau unigolion i gefnogi a chynnal cymdeithas bwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau’r Grŵp Elusennau yn trefnu diwrnodau codi arian i achosion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae’r Grŵp Gwyrdd yn gwerthuso arferion dyddiol yr ysgol yn feddylgar, fel arbed ynni ac ailgylchu.

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o gyfleoedd sy’n helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o’u hetifeddiaeth Gymreig. Er enghraifft, mae’r ysgol yn hyrwyddo eu cynefin yn effeithiol, trwy astudio chwedlau lleol a hanes seintiau Ynys Môn. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant Cymreig yn effeithiol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol, adrodd a dawnsio’r glocsen. Mae’r gweithgareddau hyn yn

annog disgyblion i ymgysylltu'n frwdfrydig â diwylliant Cymru ac i deimlo'n falch o ethos cynhwysol yr ysgol o fewn ei chymuned Gymreig.

Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod amrywiol o deithiau ac ymweliadau sy'n cefnogi'r cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dysgu am fyd gwaith yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd iddynt astudio bywydau gweithwyr gwahanol, fel swyddogion y gwasanaethau brys. Yn ogystal, mae'r Grŵp Busnes yn cynllunio i werthu cynnyrch a dyfwyd yn yr ardaloedd plannu i gyfoethogi gwybodaeth disgyblion am golled ac elw.

Mae staff yn galluogi disgyblion i wneud cyfraniadau cryf i fywyd eu cymuned. Defnyddiant y profiadau yn gadarnhaol fel bod disgyblion yn datblygu parch ac yn deall bod gofalu am eraill yn bwysig. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu bod gweithredoedd caredig yn gwneud gwahaniaeth i fywydau teuluoedd o fewn eu cymdogaeth a thu hwnt. Mae'r ysgol yn defnyddio addoli ar y cyd yn llwyddiannus i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cefnogi banc bwyd lleol trwy gasglu rhoddion yn eu dathliadau gŵyl gynhaeaf. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion bod cefnogi ei gilydd yn bwysig mewn cymdeithas ofalgar.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithlon. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd i wella presenoldeb disgyblion. Mae'r staff yn deall eu rolau'n dda wrth gadw disgyblion yn ddiogel a chynnal ethos cynhwysol yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, daeth yr arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch safle'r ysgol i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod lles disgyblion wrth wraidd ei weledigaeth. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ei athroniaeth ac mae staff yn gweithredu'n gydwybodol ar ddisgwyliadau arweinwyr. Mae arweinwyr yn creu awyrgylch gofalgar a chynhwysol ymysg yr holl staff a'r disgyblion. O ganlyniad, mae staff a'r disgyblion yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol ac yn gweithredu'n feddylgar ar ddatblygu 'Un Teulu'. Mae'r meddylfryd cadarnhaol hwn yn creu ethos o gydweithio, sy'n cael effaith bwrpasol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar ymgorffori dealltwriaeth gyffredin o werthoedd proffesiynol ymhlith y staff. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithredoedd y staff yn canolbwyntio ar ddarparu prosesau cytûn er lles y disgyblion. Er enghraifft, mae'r cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n dda ac yn defnyddio'r ardal leol fel sbardun, sy'n cynnwys astudio chwedlau lleol fel Seiriol Wyn a Chybi Felyn.

Mae'r trefniadau i ddosbarthu rolau arwain ac i ddwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn effeithiol, ar y cyfan, ac yn deillio o arferion rheoli perfformiad addas. Mae trefniadau clir ar waith i gyflawni dyletswyddau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth. Fodd bynnag, er bod y pennaeth yn ymdopi â'i rôl yn briodol, nid oes ganddo ddigon o amser i ymgymryd â'r ystod lawn o ddyletswyddau arweinyddiaeth mewn modd cynaliadwy.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a’r meysydd i'w datblygu. Mae'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gadarn. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau'n ddeallus ac yn pennu targedau dibynadwy i symud yr ysgol ymlaen, fel gwella medrau rhifedd disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol gyda'r holl staff.

Mae prosesau'r arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn sefydlog ac wedi’u seilio ar ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r systemau i wella ansawdd yn cynnwys cynnal sgyrsiau â’r disgyblion am eu gwaith, monitro’r addysgu gyda swyddogion y consortiwm a dadansoddi data i fesur cynnydd disgyblion ac i symud eu dysgu ymlaen. Mae arweinwyr yn casglu barnau partneriaid eraill yn fwriadus ac yn ystyried barnau rhieni a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau’n synhwyrol. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus i arddangos profiadau dyddiol y disgyblion i’w rhieni.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu perthnasol ar gael i staff i gefnogi eu dysgu proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Un o nodweddion cadarnhaol y broses yw bod y staff yn datblygu medrau y maent yn eu defnyddio'n ddoeth i wella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, maent yn mynychu hyfforddiant i ddatblygu’r cynllunio ymhellach ac i asesu cyflawniadau plant unigol yn effeithlon, sy’n cyfrannu at wella deilliannau disgyblion yn fwriadus.

Mae'r ysgol yn ymweld ag ysgolion lleol i brofi eu harferion effeithiol, ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae’r strategaeth hon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae’r staff yn cael cyfleoedd cynhyrchiol i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol yn fwriadus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r safle. Mae hyn yn cynnwys datblygu mannau awyr agored newydd. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n bwrpasol ac maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i ddarparu rhaglenni cymorth ar draws yr ysgol. Mae’r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu.

Mae mewnbwn y llywodraethwyr, trwy is-bwyllgorau a’r corff llawn, yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth yn ystyrlon, ac maent yn ei dwyn i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae’r pennaeth yn hysbysu'r llywodraethwyr yn ddeallus am ddysgu a lles disgyblion.Maent yn gweithredu'n dda ar wella'r ddarpariaeth, fel datblygu ymhellach safonau llafar Cymraeg y disgyblion. Mae llywodraethwyr yn hyrwyddo arferion cadarn i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac mae arweinwyr yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu pecynnau bwyd.

Mae llywodraethwyr yn manteisio ar ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau’r ysgol, sydd o fudd i wneud gwelliannau. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â theithiau dysgu ac yn trafod gwaith gyda’r disgyblion i fesur dealltwriaeth disgyblion o’u gwaith. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth werthfawr o arferion cyfredol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn monitro'r cyllid yn rheolaidd ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2023